

Ymchwil i Sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes Cymru

Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru

29 Mawrth 2022

Rhybudd Ymwadiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ('Adroddiad') gan Ernst & Young LLP, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif cofrestru C300001, ('Ernst & Young') ar gyfer Llywodraeth Cymru, o dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Nid yw Ernst & Young LLP yn derbyn nac yn cymryd bod ganddo unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas â'r Adroddiad i unrhyw un sy'n darllen yr Adroddiad, ac eithrio Llywodraeth Cymru. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd Ernst & Young LLP yn derbyn bod ganddo unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â'r Adroddiad i unrhyw Drydydd Partïon. Os bydd unrhyw Drydydd Partïon yn dewis dibynnu ar yr Adroddiad, yna maent yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain. Nid yw Ernst & Young LLP wedi cael cyfarwyddyd gan ei gleient i ymateb i ymholiadau na cheisiadau am wybodaeth gan unrhyw Drydydd Parti, ac ni fydd Ernst & Young LLP yn ymateb i ymholiadau na cheisiadau o'r fath am wybodaeth. At hynny, nid yw Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo Ernst & Young LLP i ddiweddarau'r Adroddiad ar gyfer digwyddiadau dilynol neu waith ychwanegol (os o gwbl) a gyflawnir gan Ernst & Young LLP. Yn unol â hynny, heb leihau effaith cyffredinolrwydd yr uchod, nid yw Ernst & Young yn derbyn bod ganddo unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw Drydydd Parti i ddiweddarau'r Adroddiad ar y cyfryw faterion. Cedwir pob hawl yn yr Adroddiad gan Ernst & Young LLP.

1. Crynodeb Gweithredol

Fel y nodir yn y Gwahoddiad i Dendro, nod yr adroddiad hwn yw "rhoi dealltwriaeth ddyfnach i Lywodraeth Cymru o'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru trwy fapio'r diffiniadau gwahanol a ddefnyddir ac yna fapio'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes presennol yng Nghymru. Dylai hefyd ystyried a oes yna unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU".

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn rhoi trosolwg o bob un o gamau allweddol yr adroddiad. Mae'n amlgu canfyddiadau a themâu allweddol a archwilir ym mhob cam, ac yn cloi ag argymhellion cyffredinol ar gyfer gwaith yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru.

1.1 Pennu camau'r prosiect

Amcanion allweddol yr adroddiad hwn oedd ymgymryd â thri cham gwaith gwahanol ond cysylltiedig, gyda phob un ohonynt yn helpu i greu darlun mwy integredig o'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru.

- Cam 1 – Datblygu diffiniad gweithredol o'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes fel y'i diffinnir mewn ystod o ddogfennau gwahanol a chan sefydliadau gwahanol;
- Cam 2 – Mapio'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru a chysylltu â'r diffiniadau yr ymchwiliwyd iddynt eisoes;
- Cam 3 – Darganfod a oes yna unrhyw beth unigryw am Gymru, o gymharu â gweddill y DU, o ran cyfleoedd, cryfderau a risgiau yn achos y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes.

1.2 Cam 1: Diffinio Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes

I ddiffinio'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru, cynhaliwyd dadansoddiad cymharol o'r gwahanol ddiffiniadau o Wasanaethau Proffesiynol a Busnes a ganfuwyd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Dadansoddwyd a chymharwyd y ffynonellau canlynol:

Domestig:

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS);
- Diffiniad Llywodraeth y DU fel yr amlinellwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS);¹

Rhyngwladol:

- "WTO W/120" – Dosbarthiad y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach Wasanaethau (GATS);²

¹ [Tim sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes BEIS – GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

² [MTN.GNS/W/120 \(wto.org\)](http://wto.org)

- Rhestr Ymrwymadau'r DU yn aelod annibynnol o Sefydliad Masnach y Byd (WTO);³
- Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (UK-EU TCA);
- Y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y Deyrnas Unedig a Japan (UK-Japan FTA);⁴
- Gweinyddiaeth Masnach Ryngwladol yr Unol Daleithiau;⁵ a,
- Y Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Mecsico (EU-Mexico FTA).⁶

Mae themâu cyffredin mewn disgrifiadau o Wasanaethau Proffesiynol a Busnes fel y nodir yn y dogfennau a amlinellir uchod yn canolbwyntio ar natur arbenigol a gwybodaeth-ddwys y gwasanaethau hynny a'r rôl y maent yn ei chwarae wrth gefnogi diwydiannau eraill.⁷

- Mae **gwasanaethau proffesiynol** yn cyfuno o amgylch trwyddedu, rheoleiddio a/neu gofrestru ac yn tueddu i gwmpasu set gymharol gyson o is-sectorau, sef: gwasanaethau cyfreithiol; cyfrifyddiaeth (archwilio, cyfrifyddu a chadw cyfrifon); gwasanaethau treth (a gydnabyddir ar wahân ond sydd hefyd yn cyfuno â gwasanaethau cyfreithiol a chyfrifyddiaeth gan fod y ddau broffesiwn yn cynnig cyngor ar drethi fel mater o drefn); pensaernïaeth; a pheirianeg.⁸
- Gall **gwasanaethau busnes** gwmpasu ystod ehangach neu gyfyngach o is-sectorau a gweithgareddau, a gallant amrywio o ymgynghoriaethau rheoli, gwasanaethau TG, hysbysebu ac ymchwil i'r farchnad, i wasanaethau ffotograffig, cyfieithu a gwasanaethau rhentu neu brydlesu.
- Gellir cyfuno'r ddwy elfen hyn (proffesiynol a busnes) neu eu trin ar wahân o dan ambarél gyffredinol.
- Weithiau, mae gwasanaethau **ymchwil a datblygu** yn cael eu cydnabod yn gategori unigol, ac mewn cyd-destunau eraill maent yn cael eu cynnwys o fewn categori gyffredinol y Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes.
- Mae categori **gwasanaethau eraill** hefyd ar gael yn aml. Er enghraifft, mae Rhestr Dosbarthiad Sectoraidd Gwasanaethau a ddyfeisiwyd ar gyfer trafodaethau'r Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach Wasanaethau (GATS) (W/120) yn galw'r sector yn 'Wasanaethau Busnes'. O fewn hynny, mae yna

³ [Rhestr Ymrwymadau ar Gyfer Gwasanaethau y DU](#)

⁴ Mae'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng y Deyrnas Unedig a Japan a Chytundeb Masnach Rydd diweddaraf y DU ag Awstralia yn defnyddio dull 'rhestr negyddol', a allai gyfyngu ar eu defnyddioldeb yn achos y dadansoddiad hwn – a esbonnir ymhellach yn yr adran ganlynol sy'n ymdrin ag ymrwymadau amserlennu.

⁵ Nid yw Cytundeb y DU-UDA y cyfeiriwyd ato yn wreiddiol ym Manyleb y Prosiect wedi cael ei gynnwys gan fod y trafodaethau wedi cael eu gohirio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y diffiniad a ddefnyddir gan Weinyddiaeth Masnach Ryngwladol yr Unol Daleithiau.

⁶ Daeth yr Undeb Ewropeaidd a Mecsico i 'Gytundeb mewn Egwyddor' yn 2018, er nad yw'r cytundeb wedi cael ei gadarnhau nac wedi dod i rym hyd yma.

⁷ Gwnaed gwaith blaenorol yng nghyd-destun Llundain ynghylch yr hyn y mae'r rôl ategol hon yn ei olygu mewn cyd-destun masnach yn adroddiad Corfforaeth Dinas Llundain ac EY [An ecosystem enabling international trade](#).

⁸ Mae gwasanaethau actiwaraid yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o Wasanaethau Proffesiynol a Busnes at ddibenion PBSC yn y DU. Fodd bynnag, yng nghyd-destun Cytundebau Masnach Rydd, byddent yn dod o fewn gwasanaethau ariannol gan eu bod yn weithgaredd o fewn gwasanaethau yswiriant – gweler Fframwaith Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI) ar gyfer Cytundeb Masnach Rydd â Marchnadoedd y tu Allan i'r UE ([abi-framework-for-an-fta.pdf](#)) ar dudalen 3.

restr o wasanaethau proffesiynol (gan gynnwys gwasanaethau cyfreithiol, trethiant, peirianeg, ac ati) ac ar ei diwedd mae yna gategori 'arall' heb ei ddiffinio. Mae'r categori arall hwn hefyd i'w gael yn yr is-sectorau 'Gwasanaethau Cyfrifiadurol a Gwasanaethau Cysylltiedig', 'Gwasanaethau Rhentu/Prydlesu heb Weithredwyr' a 'Gwasanaethau Busnes Eraill' (sy'n cynnwys gweithgareddau megis gwasanaethau hysbysebu a gwasanaethau ymgynghoriaethau rheoli).

Amlygodd yr ymchwili i ba raddau y mae trafodaethau presennol yn dibynnu ar ddau fframwaith dosbarthu sylfaenol allweddol: defnyddir codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol⁹ gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a chyrrff cyhoeddus eraill megis Ty'r Cwmnïau; ac mae'r drafft dros dro o Ddosbarthiad Cynnyrch Canolog Is-adran Ystadegau'r Cenhedloedd Unedig (y CPC) wedi cael ei ddefnyddio gan lawer o wledydd, gan gynnwys y DU, i amlinellu eu rhwymedigaethau masnach o dan Gytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau Sefydliad Masnach y Byd, ac mewn cytundebau masnach rydd.

Mae'r rhestr enghreifftiol ganlynol, nad yw'n hollgynhwysol, yn dangos ehangder y gwasanaethau y gellir eu cynnwys o fewn Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes:

- Gwasanaethau cyfrifyddu a chadw cyfrifon
- Gwasanaethau archwilio
- Gwasanaethau cyfreithiol
- Gwasanaethau hysbysebu
- Gwasanaethau peirianeg a pheirianeg integredig
- Gwasanaethau pensaernïaeth a chynllunio trefol
- Gwasanaethau ymchwili a datblygu
- Gwasanaethau ymgynghori gwyddonol a thechnegol cysylltiedig
- Gwasanaethau profi a dadansoddi technegol
- Gwasanaethau cyngor ar drethiant
- Gwasanaethau ymchwili i'r farchnad a pholau piniwn cyhoeddus
- Gwasanaethau cyfrifiadurol a gwasanaethau cysylltiedig
- Gwasanaethau ymgynghoriaethau rheoli a gwasanaethau sy'n ymwneud ag ymgynghoriaethau rheoli
- Gwasanaethau pecynnu
- Gwasanaethau sy'n ymwneud â chyfflogeion
- Gwasanaethau ffotograffig
- Gwasanaethau dyblygu
- Gwasanaethau llunio rhestrau postio a phostio
- Gwasanaethau cyfieithu a dehongli
- Gwasanaethau rhentu a phrydlesu
- Gwasanaethau glanhau adeiladau
- Gwasanaethau diogelwch
- Gwasanaethau ymchwilio
- Gwasanaethau atgyweirio sy'n gysylltiedig â chynhyrchion metel, peirianwaith a chyfarpar.

Datblygu diffiniad gweithredol o Wasanaethau Proffesiynol a Busnes

⁹ [Beth yw codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol \(SIC\)? \(uksiccodes.com\)](https://uksiccodes.com/)

Mae'r hyn a ddeallir gan Wasanaethau Proffesiynol a Busnes yn amrywio rhwng cyd-destunau. Yn benodol, mae'n ymddangos bod y diffiniad a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU yn fwy cyfyng at ddibenion trafodaethau domestig na'r cwmpas y gellir ei ddisgwyl yng nghyd-destunau trafodaethau masnach rhyngwladol. Gallai mabwysiadu dealltwriaeth o Wasanaethau Proffesiynol a Busnes sydd â rhywfaint o hyblygrwydd, felly, fod yn fwy defnyddiol yn ymarferol na diffinio Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes trwy gyfeirio at restr fanwl o weithgareddau. Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghramau 2 a 3 yn gyfle i fireinio'r casgliad hwn ymhellach – gweler y casgliad terfynol a'r argymhellion.

Ffocws yr ymchwil ar gyfer Camau 2 a 3

Gan nad oedd yn ymarferol dadansoddi ystod mor eang o wasanaethau yn fanwl at ddibenion yr adroddiad hwn, cytunwyd y byddai'r camau dilynol yn canolbwyntio ar fapio a deall craidd fwy cyfyng o wasanaethau proffesiynol a busnes eraill a gydnabyddir amlaf o dan Wasanaethau Proffesiynol a Busnes a/neu lle roedd gan dîm Llywodraeth Cymru a gomisiynodd yr adroddiad ddiddordeb mewn meithrin dealltwriaeth fanylach ohonynt, fel a ganlyn:

- Gwasanaethau cyfreithiol;
- Cyfrifyddiaeth;
- Pensaernïaeth, peirianeg a chynnal arolygon o eiddo;
- Gwasanaethau ymchwil a datblygu a gwasanaethau gwyddonol a thechnegol;
- Gwasanaethau sy'n ymwneud â chyflogeion;
- Gwasanaethau ymgynghoriaethau rheoli a gwasanaethau TG; a,
- Gwasanaethau ym maes hysbysebu/marchnata ac ymchwil i'r farchnad a gwasanaethau gweledol/creadigol.¹⁰

Er na chafodd gweithgareddau penodol, megis 'gwasanaethau rhentu a phrydlesu' a 'gweinyddu swyddfa, cymorth swyddfa a gweithgareddau cymorth busnes eraill' eu cywain yn fanwl yn y ddau gam a ganlyn, nid oedd hyn gyfystyr â phenderfynu ar osodiad cyffredinol i'w heithrio o ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Proffesiynol a Busnes.

1.3 Cam 2: Mapio'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru

Er mwyn mapio'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru, dadansoddwyd data meintiol ac ansoddol gan sefydliadau proffesiynol a ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd i roi trosolwg o'r sector. Mae prif ganfyddiadau'r dadansoddiad traws-sector wedi'u nodi isod.

Argaeledd data a chyfyngiadau data

Defnyddiwyd y ffynonellau data cyhoeddus isod i fapio sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes Cymru, er y dylid nodi bod y ffynonellau'n amodol ar

¹⁰ Er y gwahoddwyd cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau clyweledol a chreadigol i gymryd rhan yn yr ymchwil bord gron, dim ond un cynrychiolydd o gwmi sain a dderbyniodd y gwahoddiad. Fel y nodir uchod, nid yw'r maes clyweledol yn cael ei gynnwys yn rhan o Wasanaethau Proffesiynol a Busnes fel arfer. Felly, mae'r dadansoddiad yn Adranau 2 a 3 yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n ymwneud â hysbysebu/marchnata.

gyfyngiadau amrywiol, o ran y modd y cesglir y data a'r talgrynnu a gymhwysir i'r ffigurau a gofnodir, fel ei gilydd.

- Set ddata Busnes y DU; gweithgaredd, maint a lleoliad: 2021, a gyhoeddwyd gan yr ONS.¹¹
- Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth, a gasglwyd gan yr ONS.¹²
- Y JOBS05: set ddata swyddi'r gweithlu fesul rhanbarth a diwydiant, a gyhoeddwyd gan yr ONS.¹³
- Gwerth ychwanegol gros (cytbwys) rhanbarthol fesul diwydiant: set ddata pob rhanbarth ITL, a gyhoeddwyd gan yr ONS.¹⁴
- Casglwyd data meintiol gan gyrff proffesiynol a chymdeithasau busnes trwy holiadur pwrpasol.

Mae'r cyfyngiadau sydd wedi'u cynnwys yn ffigurau set ddata "Busnes y DU; gweithgaredd, maint a lleoliad" yn cael eu talgrynnu i'r lluosrif agosaf o 5, gan arwain at fân wallau talgrynnu yn y data a gyflwynir ar gyfanswm nifer y mentrau yng Nghymru. Yn set ddata'r ONS ar swyddi'r gweithlu fesul rhanbarth a diwydiant, ni ellir rhannu Adrannau M ac N i lefel y cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) dau ddigid. Ni ellir rhannu set ddata y gwerth ychwanegol gros (cytbwys) rhanbarthol fesul diwydiant i lefel y cod SIC pum digid.

Er bod y ffynonellau hyn yn darparu ystod eang o ddata defnyddiol, nid oedd y data canlynol ar gael ond byddai wedi bod yn fuddiol eu cael:

- Data hygyrch ar nifer y cwmnïau yng Nghymru, a'u proffiliau masnachu, wedi'u rhannu fesul rhanbarth a chodau SIC. Er bod data Tŷ'r Cwmnïau ar gael, nid oedd yn bosibl cael yr wybodaeth wedi'i glanhau ac ar ffurf strwythuredig, hawdd ei defnyddio i wneud dadansoddiad dibynadwy;¹⁵
- Data economaidd rhanbarthol ar lefel is-Gymru, wedi'u dadgyfuno ar lefel y cod SIC pum digid;¹⁶ a,
- Data ar dueddiadau yn allforion Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes Cymru ar lefel y cod SIC dau ddigid i ddarparu cyd-destun ar gyfer dimensiwn masnach ryngwladol y prosiect.

¹¹ [UK business; activity, size and location dataset, ONS 2021](#)

¹² [Business Register and Employment Survey, ONS](#)

¹³ [JOBS05: Workforce jobs by region and industry, ONS](#)

¹⁴ [Regional gross value added \(balanced\) by industry: all ITL regions, ONS](#)

¹⁵ Gallai'r data hyn gael eu cywain gan yr ONS, o bosibl, gyda dadgyfuniad pellach o wybodaeth yn cael ei gasglu yn set ddata Busnes y DU; gweithgaredd, maint a lleoliad. Gallai data Masnach mewn Gwasanaethau yr ONS ar gyfer Cymru gael eu cipio gan godau SIC dau ddigid yn hytrach nag ar ffurf cyfanswm mewnforion ac allforion gwasanaethau yng Nghymru.

¹⁶ Er mwyn meithrin dealltwriaeth mwy mireiniedig o ran y gweithgareddau ym mhob is-sector sy'n cyfrannu'r gwerth mwyaf i economi Cymru.

Cyfraniad i'r economi

Mae'r broses o bennu cyfraniad y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes i economi Cymru o ran cyflogaeth, nifer y busnesau a gwerth ychwanegol gros yn dibynnu ar y diffiniad o'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes a ddefnyddir.

Gan ddefnyddio dealltwriaeth o'r diffiniad o'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes sy'n cyd-fynd â'n grwpiau thematig arfaethedig, yn ogystal â 'gwasanaethau rhentu a phrydlesu' a 'gweinyddu swyddfa, cymorth swyddfa a gweithgareddau cymorth busnes eraill', roedd cyfanswm nifer y cyflogeion ym musnesau'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes a leolir yng Nghymru oddeutu 125,675 yn 2020.¹⁷ Yn ôl set ddata Busnes y DU; gweithgaredd, maint a lleoliad: 2021 yr ONS,¹⁸ roedd cyfanswm nifer y mentrau TAW a/neu Dalu Wrth Ennill (PAYE) gweithredol yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru yn 16,855 yn 2021.

Roedd cyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer y codau SIC dau ddigid a oedd yn cynnwys ein diffiniad o'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yn £4.247 biliwn yn 2019,¹⁹ o ddefnyddio amcangyfrifon prisiau cyfredol. Gan fod yr un gronfa ddata yn nodi mai cyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer holl ddiwydiannau Cymru oedd £67.141 biliwn yn 2019 o ddefnyddio amcangyfrifon prisiau cyfredol, mae'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes, felly, yn cyfrif am oddeutu 6.3% o'r holl werth ychwanegol gros ledled Cymru.

Mae Tabl (i) yn nodi cyfanswm nifer y mentrau TAW a/neu PAYE gweithredol yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru²⁰ yn 2021, wedi'u rhannu yn ôl codau SIC dau ddigid.²¹

Tabl (i): Cyfanswm nifer y mentrau TAW a/neu PAYE gweithredol²² yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru, 2021

¹⁷ Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth, trwy [Nomis](#), a gyrchwyd ar 3 Chwefror 2020 (cafwyd y data lefel dau ddigid trwy ddefnyddio'r camau a nodir yn y pennawd 'argaeledd data a chyfyngiadau data' yn Adran 2 o'r adroddiad hwn). DS Mae set ddata swyddi'r gweithlu fesul rhanbarth a diwydiant a gyhoeddwyd gan yr ONS yn darparu data ynghylch nifer y cyflogeion yng Nghymru wedi'u rhannu yn ôl adrannau'r cod SIC. Ni ellir rhannu'r Adrannau hyn (e.e. Adran M: gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol) i lefel y cod SIC dau ddigid, ac maent yn cynnwys data o sectorau nad ydynt yn Wasanaethau Proffesiynol a Busnes. Felly, defnyddiwyd y Gofrestr o Fusnesau a'r Arolwg Cyflogaeth at ddiben cyfrifo nifer y cyflogeion yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru.

¹⁸ Tabl 3 – Nifer y mentrau TAW a/neu PAYE mewn rhanbarth yn ôl rhanbarth Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a bandiau maint cyflogaeth, [UK business: activity, size and location 2021, ONS](#). Nodwch: efallai na fydd 'cyfanswm' y celloedd yn y set ddata hon yn cyfateb i swm pob colofn a rhes oherwydd gwllau talgrynnu. I unioni hyn, rydym yn diystyru'r 'cyfansymiau' hyn ac yn rhoi symiau cywir yn eu lle.

¹⁹ Yn ôl Tabl 1C y set ddata a gyhoeddwyd gan yr ONS, sef Gwerth ychwanegol gros (cytbwys) rhanbarthol fesul diwydiant: pob rhanbarth ITL [Regional gross value added \(balanced\) by industry: all ITL regions, ONS, rhyddhawyd 26 Mai 2021](#)

²⁰ Sylwch ar y cafeat o ran defnyddio'r data hyn yn adran 'Argaeledd data a chyfyngiadau data' yr adroddiad hwn.

²¹ Set ddata Busnes y DU; gweithgaredd, maint a lleoliad: 2021 yr ONS Tabl 3 – Nifer y mentrau TAW a/neu PAYE mewn rhanbarth yn ôl rhanbarth Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a bandiau-maint cyflogaeth, [UK business: activity, size and location 2021, ONS](#)

²² Menter yw'r cyfuniad lleiaf o unedau cyfreithiol sydd ag elfen o ymreolaeth mewn grŵp menter. Gall menter gynnwys nifer o unedau lleol. Ffynhonnell:

<https://cy.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/ukbusinessactivitysizeandlocation>

Dosbarthiad Bras	Nifer y Mentrau
69: Gweithgareddau cyfreithiol a chyfrifyddu	2,130
70: Gweithgareddau prif swyddfeydd; gweithgareddau ymgynghoriaethau rheoli	3,620
71: Gweithgareddau pensaernïol a pheirianyddol; profi a dadansoddi technegol	2,930
72: Ymchwil a datblygu gwyddonol	195
73: Hysbysebu ac ymchwil i'r farchnad	395
74: Gweithgareddau proffesiynol eraill; gweithgareddau gwyddonol a thechnegol	2,265
77: Gweithgareddau rhentu a phrydlesu	825
78: Gweithgareddau cyflogaeth	575
82: Gweinyddu swyddfa, cymorth swyddfa a gweithgareddau cymorth busnes eraill	3,920
Cyfanswm	16,855

Ffynhonnell: [UK business; activity, size and location 2021, ONS](#)

Lleoliad daearyddol

Mae Tabl (ii) isod yn darparu rhaniad daearyddol o ran nifer y cyflogeion unigol ym musnesau'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru yn 2020, fel y nodir yn y Gofrestr o Fusnesau a'r Arolwg Cyflogaeth.²³ Sylwch fod y data hyn yn adlewyrchu'r nifer a gyflogir gan fusnesau ym mhob rhanbarth o Gymru.

Mae yna grynodiad daearyddol uchel o gyflogeion ym musnesau'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghaerdydd. Mae yna gyfanswm o oddeutu 125,675²⁴ o gyflogeion unigol ym musnesau'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru, ac o'r rheiny, mae tua 31,975 (25.4%) o gyflogeion wedi'u lleoli yng Nghaerdydd.

Yng Nghaerdydd, 'gwasanaethau cyflogaeth' (SIC 78) yw'r cyflogwr mwyaf yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes, ac mae tua 10,000²⁵ o gyflogeion yn y sector, sy'n cyfrif am oddeutu 8% o'r gweithwyr ym musnesau'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru yn 2020. Yna daw'r sector cyfreithiol a chyfrifyddu, sydd ag oddeutu 7,000 o gyflogeion yng Nghaerdydd (5.6% o holl weithwyr y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru yn 2020).

Ar ôl Caerdydd, gan Gasnewydd y mae'r ail nifer mwyaf o gyflogeion ym musnesau'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru yn 2020, sef 10,760²⁶ o weithwyr (8.6% o holl weithwyr y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru yn 2020). Yn yr un modd â Chaerdydd, gweithgareddau cyflogaeth yw'r is-

²³ Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth, trwy [Nomis](#), a gyrchwyd ar 3 Chwefror 2020 (cafwyd y data lefel dau ddigid trwy ddefnyddio'r camau a nodir yn y pennawd 'argaeledd data a chyfyngiadau data' yn Adran 2 o'r adroddiad hwn).

²⁴ Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth, trwy [Nomis](#), a gyrchwyd ar 3 Chwefror 2020 (cafwyd y data lefel dau ddigid trwy ddefnyddio'r camau a nodir yn y pennawd 'argaeledd data a chyfyngiadau data' yn Adran 2 o'r adroddiad hwn).

²⁵ Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth, trwy [Nomis](#), a gyrchwyd ar 3 Chwefror 2020 (cafwyd y data lefel dau ddigid trwy ddefnyddio'r camau a nodir yn y pennawd 'argaeledd data a chyfyngiadau data' yn Adran 2 o'r adroddiad hwn).

²⁶ Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth, trwy [Nomis](#), a gyrchwyd ar 3 Chwefror 2020 (cafwyd y data lefel dau ddigid trwy ddefnyddio'r camau a nodir yn y pennawd 'argaeledd data a chyfyngiadau data' yn Adran 2 o'r adroddiad hwn).

sector mwyaf, ond mae gan weithgareddau cyfreithiol a chyfrifyddu a gweithgareddau prif swyddfeydd/gweithgareddau ymgynghoriaethau rheoli nifer sylweddol o gyflogeion yng Nghasnewydd hefyd.

Tabl (ii): Cyfanswm nifer y cyflogeion yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru wedi'i rannu yn ôl lleoliad, 2020

Lleoliad	Nifer y cyflogeion yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes
Blaenau Gwent	1,100
Pen-y-bont ar Ogwr	4,080
Caerffili	5,825
Caerdydd	31,975
Sir Gaerfyrddin	5,000
Ceredigion	1,495
Conwy	3,660
Sir Ddinbych	3,850
Sir y Fflint	9,700
Gwynedd	2,315
Ynys Môn	960
Merthyr Tudful	1,230
Sir Fynwy	3,195
Castell-nedd Port Talbot	2,600
Casnewydd	10,760
Sir Benfro	2,910
Powys	5,565
Rhondda Cynon Taf	5,280
Abertawe	7,875
Torfaen	3,035
Bro Morgannwg	4,125
Wrecsam	9,140
Cyfanswm	125,675

Ffynhonnell: Cofrestr o Fusnesau a'r Arolwg Cyflogaeth, a gyrchwyd trwy [Nomis](#)

Mae Nomis yn dyrannu lleoliad i gyflogeion yn seiliedig ar gyfeiriad cofrestredig eu cyflogwr. O ystyried y cynnydd mewn gweithio o bell, gall unigolion a gyflogir yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes fod yn fwy gwasgaredig yn ddaearyddol o ran eu patrymau gwaith dyddiol.²⁷

Maint y busnesau

Mae gan y mwyafrif helaeth o fentrau yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru nifer bach o gyflogeion, ac mae gan 84.2% ohonynt bedwar neu lai o weithwyr; mae hyn hyd yn oed yn uwch na'r gyfran ledled pob sector yng

²⁷ [Gweithio o Bell, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2021](#)

Nghymru, sef 77.3% ar gyfer 2021.²⁸ Mae mentrau sy'n cyflogi 100 neu ragor o weithwyr yn gyfran fach iawn o'r busnesau yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes (0.6%). Fodd bynnag, mae hyn yn gynrychioladol o'r economi ehangach. Ledled Cymru, roedd gan 0.8% o fentrau 100 neu ragor o gyflogeion yn 2021 yn ôl set ddata Busnes y DU; gweithgaredd, maint a lleoliad: 2021 yr ONS.

Tabl (iii): Cyfanswm nifer y mentrau TAW a/neu PAYE gweithredol yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru, wedi'u rhannu yn ôl bandiau maint cyflogeion, 2021

Codau SIC dau ddigid	Cyfanswm nifer y cyflogeion							Cyfanswm
	0-4	5-9	10-19	20-49	50-99	100-249	250+	
69: Gweithgareddau cyfreithiol a chyfrifyddu	1,500	300	190	100	25	10	5	2,130
70: Gweithgareddau prif swyddfeydd; gweithgareddau ymgynghoriaethau rheoli	3,355	140	70	35	15	5	0	3,620
71: Gweithgareddau pensaernïol a pheirianyddol; profi a dadansoddi technegol	2,525	215	115	55	15	5	0	2,930
72: Ymchwil a datblygu gwyddonol	140	20	20	5	5	5	0	195
73: Hysbysebu ac ymchwil i'r farchnad	330	35	15	10	0	5	0	395
74: Gweithgareddau proffesiynol eraill; gweithgareddau gwyddonol a thechnegol	1,995	180	60	20	5	5	0	2,265
77: Gweithgareddau rhentu a phrydlesu	635	100	55	20	5	5	5	825
78: Gweithgareddau cyflogaeth	375	60	40	40	20	30	10	575
82: Gweinyddu swyddfa, cymorth swyddfa a gweithgareddau cymorth busnes eraill	3,345	360	125	60	15	5	10	3,920
Cyfanswm	14,200	1,410	690	345	105	75	30	16,855

²⁸ Tabl 3 – Nifer y mentrau TAW a/neu PAYE mewn rhanbarth yn ôl rhaniad Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a bandiau maint cyflogaeth, [UK business: activity, size and location 2021, ONS](#)

Ffynhonnell: [UK business; activity, size and location 2021, ONS](#)

Mae Tabl (iv) yn dangos nifer y mentrau TAW a/neu PAYE gweithredol yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru wedi'u rhannu yn ôl cod SIC dau ddigid a band maint trosiant y DU ar gyfer 2021, fel y nodir yn set ddata Busnes y DU; gweithgaredd, maint a lleoliad: 2021 yr ONS. Mae cyfran y mentrau TAW a/neu PAYE yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru sydd â throsiant o fwy nag £1 miliwn yn 5.8%, sy'n is na chyfran y mentrau ledled holl ddiwydiannau Cymru, sef 7.8% yn 2021.

Tabl (iv): Nifer y mentrau TAW a/neu PAYE gweithredol yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru wedi'u rhannu yn ôl cod SIC a band maint trosiant y DU, 2021 ²⁹

Codau SIC dau ddigid	Band maint Trosiant y DU (£000)							Cyfanswm
	0-49	50-99	100-249	250-499	500-999	1000-4999	5000 +	
69: Gweithgareddau cyfreithiol a chyfrifyddu	300	515	735	265	155	130	25	2,125
70: Gweithgareddau prif swyddfeydd; gweithgareddau ymgynghoriaethau rheoli	690	755	1,705	260	100	85	30	3,625
71: Gweithgareddau pensaernïol a pheirianyddol; profi a dadansoddi technegol	395	970	1,065	215	125	135	30	2,935
72: Ymchwil a datblygu gwyddonol	55	25	65	20	10	15	5	195
73: Hysbysebu ac ymchwil i'r farchnad	80	65	155	50	15	20	5	390
74: Gweithgareddau proffesiynol eraill; gweithgareddau gwyddonol a thechnegol	290	610	1,005	220	85	50	10	2,270
77: Gweithgareddau rhentu a phrydlesu	190	145	185	125	80	70	20	815
78: Gweithgareddau cyflogaeth	70	95	175	60	50	90	35	575
82: Gweinyddu swyddfa, cymorth swyddfa a gweithgareddau cymorth busnes eraill	330	520	1,210	1,230	405	180	40	3,915
Cyfanswm	2,400	3,700	6,300	2,445	1,025	775	200	16,845

Ffynhonnell: [UK business; activity, size and location 2021, ONS](#) – gweler y nodyn uchod am wallau talgrynu

²⁹ Tabl 8 – Nifer y mentrau TAW a/neu PAYE mewn rhanbarth yn ôl rhaniad Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a bandiau maint trosiant (£'000), [UK business; activity, size and location: 2021, ONS](#)

1.4 Cam 3: Nodi agweddau unigryw ar y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru

Roedd Cam 3 yn defnyddio ymgysylltiad â rhanddeiliaid i nodi cryfderau a gwendidau a oedd eisoes yn bodoli yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru, ynghyd â heriau a chyfleoedd yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried a oes yna unrhyw agweddau unigryw yn perthyn i'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru. Archwiliwyd y cwestiynau hyn yn y sesiynau bord gron thematig a chafwyd peth adborth hefyd trwy holiadur Cam 2.

Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adran hon yn seiliedig ar brofiad, barn a dirnadaeth y sawl a gymerodd ran yn y sesiynau bord gron, ynghyd ag ymatebion ansoddol gan sefydliadau proffesiynol a thraws-sector. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir gan y cyfranogwyr wedi cael eu gwirio o ran y ffeithiau, na'u dilysu'n annibynnol, ac ni ddylid eu dehongli fel pe baent yn cynrychioli barn naill ai EY na Llywodraeth Cymru.

Casglu dadansoddiad ansoddol trwy sesiynau bord gron

Gwahoddwyd cyfranogwyr i'r sesiynau bord gron o'r saith grŵp thematig. Nod pob grŵp bord gron oedd sicrhau amrywiaeth o safbwyntiau yn y grwpiau thematig priodol, gan gynnwys busnesau llai o faint a busnesau mwy o faint, fel ei gilydd. Er mwyn nodi agweddau unigryw ar y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru, a gwerthuso cyfleoedd a heriau posibl, canolbwyntiodd y gwaith ymgysylltu yn benodol ar fusnesau sy'n meddu ar brofiad o weithio i gleientiaid yng ngweddill y DU a thramor; roedd hyn yn caniatáu i ni gasglu mewnwelediadau yn ymwneud â'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng cystadleuwyr y tu allan i Gymru. Roedd hefyd yn caniatáu i ni archwilio problemau posibl o ran rhwystrau i fasnachu yn y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes.

Lle'r oedd yn berthnasol, gofynnwyd i sefydliadau proffesiynol, a oedd wedi cytuno i gymryd rhan yn yr holiaduron, nodi cyfranogwyr ar gyfer y sesiynau bord gron o blith eu haelodau yng Nghymru. Gweithiodd EY mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfreithwyr Lloegr a Chymru ar ford gron y gwasanaethau cyfreithiol; Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) a Chymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA) ar ford gron y gwasanaethau cyfrifyddiaeth; a'r Cyngor Peirianeg, Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW) a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) ar gyfer peirianeg, pensaernïaeth a thirfesur. Roedd lefel yr ymgysylltu yn gyffredinol uwch ar y bordydd cron pan fyddai EY yn gweithio gyda sefydliadau proffesiynol. Fodd bynnag, roedd RSAW a RICS yn bresennol yn y sesiynau bord gron ond ni lwyddasant i nodi cyfranogwyr ar gyfer y ford gron, gan ddweud mai diffyg profiad o ddarparu gwasanaethau i gleientiaid y tu allan i Gymru oedd y ffactor ysgogol.

Darparwyd rhestr o wahoddedigion gan Lywodraeth Cymru ar gyfer bord gron y gwasanaethau sy'n ymwneud â chyflogeion.

Lle nad oedd yna unrhyw sefydliad proffesiynol perthnasol na rhestr gyfredol gan Lywodraeth Cymru, nodwyd cyfranogwyr trwy waith ymchwil bwrdd gwaith. Fodd bynnag, roedd yn anodd canfod, ar sail ymchwil bwrdd gwaith, pa fusnesau a oedd yn cynnig gwasanaethau i gleientiaid y tu allan i Gymru ar y pryd, neu ba fusnesau a

oedd â diddordeb mewn cynnig gwasanaethau i gleientiaid y tu allan i Gymru. Cafwyd cyfradd ymateb gymysg i'r gwahoddiadau hyn ac, yn unol â hynny, roedd maint y sesiynau bord gron yn amrywio.

Themâu cyffredin a nodwyd trwy'r sesiynau bord gron

Nod y gyfres o sesiynau bord gron oedd adeiladu ar ein dealltwriaeth o'r sector hwn a detholiad o'i is-sectorau, a nodi'r cryfderau allweddol a allai roi mantais gystadleuol i Gymru, yn ogystal â chyflwyno heriau allweddol.

Cynefindra â'r term Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes

Agwedd allweddol ar yr ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid oedd deall i ba raddau y mae'r term "gwasanaethau proffesiynol a busnes" a'r acronym Saesneg "PBS" yn gyfarwydd, a'r hyn y deallir ei fod yn ei olygu.

Cafwyd darlun amrywiol gan yr ymatebion i'r holiadur cychwynnol o ran y graddau y mae'r term yn cael ei ddefnyddio a'i adnabod. Gofynnwyd i'r rheiny a oedd yn rhan o'r sesiynau bord gron a oeddent yn gyfarwydd â'r term 'sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes' ac a yw'n cael ei ddefnyddio'n aml yn eu sectorau. Ac eithrio'r maes ymchwil a datblygu, roedd cyfranogwyr y sesiynau bord gron o bob sector yn cytuno'n fras y byddai eu gwasanaethau'n cael eu dosbarthu dan y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes, er nad oedd llawer ohonynt yn gyfarwydd â'r term. Mae busnesau ledled y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yn uniaethu'n gryfach yn gyson â'u his-sectorau penodol eu hunain (e.e. y sector cyfreithiol, y sector creadigol, ac ati). Fodd bynnag, nodwyd mewn nifer o'r sesiynau bord gron fod yr is-sectorau gwahanol yn rhyngweithio'n aml a hyd yn oed yn mynd ati i gydweithredu â'i gilydd. Mae crynodebau sector-benodol o'r drafodaeth ynghylch cynefindra â'r term Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes wedi'u nodi isod.

Effeithiau COVID

Roedd pob sector yn cydnabod y symudiad i weithio o bell a'r ffocws cynyddol ar ddarpariaeth ddigidol yn sgil pandemig COVID-19. Fodd bynnag, cyfeiriodd llawer at y cynlluniau cyfredol ynghylch dychwelyd i'r swyddfa, a'r awydd i weithwyr fod yn bresennol yn gorfforol o leiaf rywfaint o'r amser. Nodwyd bod hyn arbennig o bwysig yng nghyd-destun prosiectau creadigol ac arloesedd.

Pwysigrwydd talent

Roedd pwysigrwydd hanfodol gallu denu a chadw unigolion medrus yn thema allweddol ledled yr holl sesiynau bord gron. Ystyriwyd hyn yng nghyd-destun busnesau unigol a Chymru gyfan. Mynegwyd pryderon ynghylch colli talent i gwmnïau mewn ardaloedd eraill yn y DU: mae hyn yn bryder arbennig o fawr o ganlyniad i'r cynnydd mewn arferion gweithio o bell a ysgogwyd gan bandemig COVID-19, sy'n golygu bod cwmnïau o Gymru yn cystadlu'n uniongyrchol am dalent â chwmnïau yn Lloegr. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr y sesiynau bord gron yn hyderus bod gan Gymru y potensial i feithrin cronfa dalent hynod fedrus.

Pwysigrwydd cynaliadwyedd

Nododd rhanddeiliaid fod cynaliadwyedd, ac yn arbennig cynaliadwyedd amgylcheddol, yn her ac yn gyfle. Awgrymodd trafodaethau bord gron y gall fod yn bwynt gwerthu allweddol, ond cafwyd adborth hefyd fod nifer cynyddol o gleientiaid

yn disgwyl i faterion amgylcheddol, cymdeithasol a rheoli (ESG) gael eu hystyried fel mater o drefn. Amlinellodd y sectorau y gwasanaethau amgylcheddol a ddarperir ganddynt.

Amlygwyd gwasanaethau amgylcheddol hefyd yn nifer o'r ymatebion i holiadur y sefydliadau proffesiynol.

Cryfderau/Cyfleodd allweddol

- **Maint Cymru a chydweithrediad o fewn sectorau:** Mae maint cymharol y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru, o gymharu â gweddill y DU, wedi arwain at gysylltiadau cryf ymhlith busnesau o fewn a rhwng y rhan fwyaf o is-sectorau'r Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes.
- **Rôl y Sector Cyhoeddus:** Soniwyd am bwysigrwydd digwyddiadau ymgysylltu gan y sector cyhoeddus mewn nifer o sesiynau bord gron, e.e. mae cysylltiad cryf rhwng y maes Ymchwil a Datblygu a gwerthu i'r GIG. Nododd y cwmnïau cyfreithiol a oedd â chynrychiolaeth yn y sesiynau bord gron bwysigrwydd cael cyfleodd i ddarparu eu gwasanaethau i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cyfeiriwyd ganddynt hefyd at yr heriau a berir gan y rheolau caffael, nad ydynt i gyd yn cael eu hystyried yn gymesur â maint y contractau a ddyfernir.
- **Y Gymuned:** Nododd pob grŵp bord gron fod pwysigrwydd cymuned ac anian gyfeillgar Cymru yn ffactor unigryw a gwahaniaethol o gymharu â gweddill y DU. Gall yr ymdeimlad hwn o gymuned fod yn ddefnyddiol i ddenu talent i Gymru a meithrin cydweithrediad busnes o fewn sectorau y tu hwnt i Wasanaethau Proffesiynol a Busnes.
- **Ansawdd bywyd:** Mae costau byw cymharol isel ac argaeledd ardaloedd gwledig yng Nghymru yn ddeniadol i bobl sydd am symud o ddinasoedd mawr mewn rhannau eraill o'r DU. O gyfuno hynny â'r cyfleodd i weithio o bell, nodwyd bod y nodweddion hyn yn allweddol i hyrwyddo Cymru yn gyrchfan o ran gyrfa i bobl na fyddent wedi ystyried adleoli i Gymru o'r blaen.
- **Prifysgolion Cymru:** Soniwyd am gryfder Prifysgolion Cymru mewn nifer o'r sesiynau bord gron a'r ymatebion i'r holiadur, a hynny yn gyffredinol ac yn benodol o ran Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes. Fodd bynnag, mae yna le i wella.

Gwendidau/Heriau allweddol

- **Seilwaith:** Tynnwyd sylw'n gyson at gysylltiad bang eang gwael (o ran darpariaeth y rhwydwaith a lefelau 4G a 5G, hyd yn oed mewn dinasoedd) a seilwaith cludiant gwael, a bod hynny'n her i fusnesau yng Nghymru. Nodwyd yn benodol bod yr M4 sy'n cysylltu Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd â Lloegr yn broblem o ran teithio, yn ogystal â'r nifer cyfyngedig o hediadau masnachol o faes awyr Caerdydd a'r anawsterau o ran cyrchu cysylltiadau â hediadau rhyngwladol amgen. Mae band eang a signal ffôn a data annibynadwy y tu allan i ddinasoedd mawr yn creu anawsterau o ran gweithio o bell.

- **Cystadlu am gleientiaid a chyflogeion medrus:** Mae cyfranogwyr yn cystadlu am waith cleientiaid o Gymru, y DU ac yn rhyngwladol – ac mae'r farn am anfanteision cystadleuol Cymru yn gymysg. Mae meddu ar y gallu i gynnig gwasanaethau o ansawdd uchel am bris mwy cystadleuol yn un fantais bosibl (ond efallai na fydd yn parhau wrth i'r pwysau i gynyddu cyflogau godi). Tynnwyd sylw at Fryste a Llundain yn aml yn y cyd-destun hwn. Soniwyd yn fynych am brinder sgiliau mewn ymatebion i holiadur y sefydliadau proffesiynol.
- **Enw da Cymru yn rhyngwladol ar wahân i'r DU:** Amlygodd sawl un o'r grwpiau bord gron absenoldeb enw da Cymru ar wahân i'r DU, yn enwedig mewn trafodaethau rhyngwladol. Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr yn y sesiynau bord gron nad oedd rhai darpar gleientiaid tramor yn ymwybodol o unrhyw wahaniaethau rhwng Cymru a gweddill y DU. Yn dibynnu ar y cyd-destun, gellir ystyried hyn yn fantais neu'n anfantais. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru mewn nifer o'r grwpiau bord gron fel elfen sy'n creu canolbwynt cadarnhaol o ddiddordeb rhyngwladol.³⁰
- **Meddylfryd mewnbylg:** Nododd sawl grŵp bord gron fod tueddiad busnesau ac unigolion i ganolbwyntio ar lwyddiant domestig (hynny yw, yn y DU), yn hytrach na cheisio manteisio ar farchnadoedd tramor, yn her allweddol i'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yng Nghymru. Nododd y cyfranogwyr y gallai'r rheswm dros hyn, mewn llawer o achosion, fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i fusnesau bach, a diffyg mynediad at gyllid, yn hytrach na gwrthwynebiad cynhenid i gael mynediad at farchnadoedd tramor. Er bod yna enghreifftiau cryf o fusnesau o Gymru yn gweithredu'n llwyddiannus yn y farchnad ryngwladol, gan gynnwys ymhlith aelodau'r sesiynau bord gron, soniwyd hefyd, mewn mwy nag un o'r grwpiau bord gron, ei bod yn angenrheidiol hybu meddylfryd mwy rhyngwladol.

Crynodeb o themâu allweddol o'r sesiynau bord gron

Nodwyd y themâu allweddol a restrir uchod ar draws sawl grŵp bord gron. Mae dadansoddiad o'r themâu a nodwyd ymhob grŵp bord gron wedi'i restru isod yn Nhabl (v).

Tabl (v): Themâu allweddol a nodwyd ar draws y grwpiau bord gron

³⁰ Gweler ymhellach [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#)

Thema	Cyfrifdydiaeth	Gwasanaethau Cyfreithiol	Pensaernïaeth a Pheirianneg	Hysbysebu ac Ymchwil i'r Farchnad	Gwasanaethau sy'n ymwneud â Chyflogaion	Ymgynghori	Ymchwil a Datblygu Gwyddonol
Cryfderau							
Maint Cymru a chydweithrediad sectoraidd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Rôl y sector cyhoeddus			✓				✓
Cymuned		✓	✓	✓	✓	✓	✓
Ansawdd bywyd		✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gwasanaethau amgylcheddol			✓	✓		✓	
Cronfa dalent bosibl	✓		✓		✓		✓
Gwendidau							
Seilwaith		✓	✓	✓	✓	✓	
Prentisiaethau	✓	✓	✓			✓	
Enw da Cymru yn rhyngwladol ar wahân i weddill y DU	✓	✓	✓				
Dawn	✓	✓	✓	✓	✓		
Newid dynameg recriwtio	✓	✓	✓		✓	✓	
Cystadlu am gleientiaid	✓	✓		✓	✓	✓	
Meddylfryd mewnblyg			✓		✓	✓	✓

Argymhellion

Mireinio'r diffiniad o Wasanaethau Proffesiynol a Busnes

Mae Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yn cael ei gydnabod mewn fforymau rhyngwladol a domestig yn sector sy'n cwmpasu ystod eang iawn o weithgareddau. Mae yna graidd proffesiynol cadarn o weithgareddau a gydnabyddir yn gyffredinol gan aelodau'r proffesiynau hynny, ac eraill, yn rhai sy'n dilyn y diffiniad o Wasanaethau Proffesiynol a Busnes. Fodd bynnag, efallai nad yw'r ddealltwriaeth o gwmpas y dimensiwn 'gwasanaethau busnes'ystal gan ei fod yn aneglur ar y cyfan.

I ryw raddau, dylai defnydd o'r term gan Lywodraeth Cymru ddibynnu ar y cyd-destun. Mae'r ddealltwriaeth a fabwysiadwyd yn Sefydliad Masnach y Byd yn debygol o dra-arglwyddiaethu ar drafodaethau Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun masnach ryngwladol.

Fodd bynnag, mae dibyniaeth yr ONS ar godau SIC yn golygu bod categori troswaol "gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol", a ategir, o bosibl, gan weithgareddau o gategorïau ychwanegol yn y fframwaith dosbarthu hwn, hefyd yn berthnasol, a hynny o ran ystyried perthnasoedd masnachu rhyngwladol y DU ac o ran deall y sector yng nghyd-destun domestig y DU ac mewn cyd-destun sy'n benodol i Gymru, oherwydd y modd y caiff data eu casglu.

Os yw'r term Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes i gael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru at ddibenion ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae canfyddiadau cychwynnol y prosiect hwn yn awgrymu y bydd angen rhaglen gyfathrebu i feithrin ymwybyddiaeth o'r term a'r sectorau sy'n rhan ohono.

Mae argymhellion eraill i'w hystyried fel a ganlyn:

- Gwella'r broses o gasglu data am y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes ar y lefel ddatganoledig. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â data a gedwir gan Dy'r Cwmnïau;
- Adeiladu cymuned Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes gryfach (hynny yw, ledled llawer o'r is-sectorau, neu bob un ohonynt, yn hytrach nag ar lefelau is-sector yn unig);
- Gwella'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes;
- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r rôl y mae'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes yn ei chwarae, a'r rôl y gallai ei chwarae, o ran cynorthwyo'r broses o newid i economi fwy cynaliadwy; ac
- Ehangu ymwybyddiaeth ledled y sector Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes ynghylch cyfleoedd i ysgogi twf busnes trwy fasnach ryngwladol.

Mae EY yn bodoli i adeiladu byd gwaith gwell, gan helpu i greu gwerth hirdymor i gleientiaid, pobl a chymdeithas, a meithrin ymddiriedaeth yn y marchnadoedd cyfalaf.

Mae timau amrywiol EY mewn dros 150 o wledydd, sy'n cael eu galluogi gan ddata a thechnoleg, yn darparu ymddiriedaeth trwy sicrwydd ac yn helpu cleientiaid i dyfu, trawsnewid a gweithredu.

Gan weithio ym meysydd sicrwydd, ymgynghori, y gyfraith, strategaeth, treth a thrafodion, mae timau EY yn gofyn gwell cwestiynau i ddod o hyd i atebion newydd ar gyfer y materion cymhleth sy'n wynebu ein byd heddiw.

Mae EY yn cyfeirio at y sefydliad byd-eang, a gall gyfeirio at un neu ragor o'r cwmnïau sy'n aelodau o Ernst & Young Global Limited, cwmnïau sydd, pob un ohonynt, yn endid cyfreithiol ar wahân. Nid yw Ernst & Young Global Limited, sy'n gwmni cyfyngedig trwy warant yn y DU, yn darparu gwasanaethau i gleientiaid. Mae gwybodaeth am y modd y mae EY yn casglu ac yn defnyddio data personol, yn ogystal â disgrifiad o'r hawliau sydd gan unigolion o dan ddeddfwriaeth diogelu data, ar gael trwy fynd i ey.com/privacy. Nid yw cwmnïau sy'n aelodau o EY yn darparu gwasanaethau cyfreithiol lle mae cyfreithiau lleol yn gwahardd hynny. I gael rhagor o wybodaeth am ein sefydliad, ewch i ey.com.

© 2022 Ernst & Young LLP
Cedwir pob hawl.

ey.com

